

Mae Leader yn anelu i ddefnyddio dulliau blaengar i gynorthwyo cymunedau wrth drin yr angen yn eu hardaloedd drwy ddatblygu gwasanaethau sylfaenol, creu cymunedau cynaliadwy a chryf a gwella'r amgylchedd lleol.

Dylai prosiectau gael eu harwain gan y gymuned, ymateb i angen y gymuned ac yn gallu cynnal eu hunain yn yr hirdymor, ar ôl i'r cyllid ddog i ben.



Cyngor da....

Ystyriaeth bwysig yw y dylai'r holl brosiectau fod yn gysylltiedig â'r Strategaeth Datblygu Lleol. Mae hyn yn amlinellu'r anghenion, amcanion a rhai camau gweithredu posibl dan un o'r pum thema. Gallwch lawrlwytho'r ddogfen yn: www.valeofusk.org

Ydych chi'n edrych am gyllid i gefnogi prosiect ynni adnewyddadwy cymunedol neu effeithiolrwydd ynni yn Sir Fynwy neu Gasnewydd. Os felly, byddem yn falch iawn clywed gennych.

Gadewch i ni wybod drwy ddefnyddio'r ffurflen gyswllt yn www.valeofusk.org

Bydd un o'n swyddogion yn cysylltu â chi i roi mwy o gyngor neu gallwch ffonio Mark Lloyd, Cydlynnydd Rhaglenni Gwledig ar 01633 644865.

I gael mwy o wybodaeth ar ynni adnewyddadwy cymunedol a themâu eraill dan Leader ewch i'n gwefan: www.valeofusk.org



YNNI ADNEWYDDADWY CYMUNEDOL AC EFFEITHIOLRWYDD YNNI



CYFLEOEDD CYLLID YN NYFFRYN WYSG



Pa fathau o brosiectau y gellir eu cyllido?

Gelwir y cyllid yn 'Leader' ac mae'n seiliedig ar bum prif thema. Mae 'Ynni adnewyddadwy dan arweiniad y gymuned' yn faes eang a gallwn ystyried unrhyw syniadau sy'n canolbwyntio ar ostwng ôl-troed carbon, cadwraeth ynni, ynni adnewyddadwy, trafniadaeth gynaliadwy, tlodi tanwydd, tyfu cymunedol neu gompostio.

Cyflid refeniw yw Leader ac felly ni all gyllido eitemau mawr o wariant cyfalaf fel adeiladau, offer, tir ac ati. Dyma rai enghreifftiau:

- Codi ymwybyddiaeth o gynlluniau ynni adnewyddadwy, e.e. ymweliadau i ganfod mwy am dechnolegau ynni.
- Astudiaethau dichonolrwydd, e.e. ar gyfer cynllun trydan dŵr cymunedol

- Archwiliadau ynni, e.e. ar neuaddau cymunedol i ddynodi defnydd ynni presennol a ffyrdd o ostwng hyn.
- Syniadau am drafniadaeth gymunedol neu gynaliadwy.
- Syniadau am hyrwyddo ymagwedd ynni isel at ymwelwyr megis cymhellion i ddefnyddio dulliau mwy cynaliadwy o drafniadaeth, darparu pwyntiau siarsio cerbydau trydan mewn atyniadau.
- Prosiectau sy'n cefnogi gostwng tlodi tanwydd o fewn Dyffryn Wysg.
- Prosiectau sy'n defnyddio buddion cymunedol o ynni adnewyddadwy i ostwng tlodi.
- Prosiectau sy'n cefnogi busnesau i ddod yn fwy effeithiol o ran ynni.
- Prosiectau sy'n defnyddio adnoddau naturiol i ddarparu datrysiadau lleol.
- Gweithgwaedau ymgysylltu i roi gwybodaeth ynni adnewyddadwy i berchnogion tir a busnesau gwledig.
- Cyrchu bwyd o goetiroedd cymunedol, sefydlu canolfannau compostio cymunedol, a chynlluniau tanwydd neu fwyd ar y cyd.

Pwy all wneud cais?

Gall grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol neu fusnesau wneud cais. Croesewir syniadau gan unigolion hefyd.

Ardal gweithredu

Prosiectau yn 'Nyffryn Wysg' yn cynnwys Sir Fynwy a rhannau gwledig o Gasnewydd.

Swm cyllid

Nid oes unrhyw uchafswm neu isafswm penodol er ein bod fel canllaw yn edrych ar brosiectau tua £10,000-£15,000 ar gyfartaledd.

Gall Leader ariannu hyd at 80% o gyfanswm costau prosiect gydag o leiaf 20% o arian cyfatebol.



Cynllun trydan dŵr yn Osbaston, Trefynwy